

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Arolygiad Dirybudd o Urddas
a Gofal Hanfodol**

**Dyddiad yr arolygiad:
29 a 30 Mai 2012**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Pennod	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Canfyddiadau	3
Ward 6 y Gorllewin – Ward Clefydau Anadlol Meddygol.....	3
Ward 8 y Gorllewin – Gofal yr Henoed	9
3. Argymhellion.....	17
4. Casgliad.....	21
5. Y Camau Nesaf	22
Atodiad A – Y Cefndir a'r Fethodoleg ar gyfer yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol	23
Atodiad B – Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	26
Atodiad C – Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru	28

1. Cyflwyniad

1.1 Mae erthygl tri o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn dweud na ddylai neb gael ei drin mewn ffordd annynol neu ddiraddiol¹. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus yn y DU – gan gynnwys holl wasanaethau'r GIG – i drin pobl yn deg a chyfartal, ag urddas a pharch. Mae urddas hefyd yn un o bum egwyddor y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn, ac mae'n egwyddor allweddol sy'n sail i Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Yn 2007, lansiodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen 'Urddas mewn Gofal' ar gyfer Cymru, sef menter sydd â'r nod o sicrhau na oddefir unrhyw achos o gam-drin pobl hŷn ac o ddiffyg parch tuag atynt yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

1.2 Yng nghyd-destun deddfwriaeth hawliau dynol y DU a rhyngwladol, a pholisi Llywodraeth Cymru, cychwynnodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) raglen o 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' dirybudd ym mis Rhagfyr 2011 i adolygu'r gofal a roddir i bobl mewn ysbytai ledled Cymru, gan roi sylw arbennig i bobl hŷn. Mae'r rhaglen hon yn dilyn Archwiliadau ar Hap AGIC o Urddas a Pharch a gynhaliwyd yn ystod 2009 a 2010².

1.3 Mae'r 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' yn adolygu'r ffordd y cynhelir urddas claf mewn ward ysbyty, a'r gofal nyrsio sylfaenol a dderbynnir gan y claf. Cesglir gwybodaeth trwy siarad â chleifion, perthnasau a staff, trwy adolygu cofnodion meddygol cleifion, a thrwy arsylwi. Mae mwy o wybodaeth am sut y cynhelir yr arolygiadau ar gael yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

1.4 Mae'r arolygiadau'n rhoi 'cipolwg' o'r gofal a dderbynnir gan gleifion ar wardiau ysbyty, ac fe allent amlygu materion ehangach yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas.

¹ Mae '*triniaeth annynol*' yn golygu triniaeth sy'n achosi niwed meddyliol neu gorfforol difrifol, ac mae '*triniaeth ddiraddiol*' yn golygu triniaeth sy'n ddybryd o fychanol a diurddas.

² I gael mwy o wybodaeth am Archwiliadau Urddas a Pharch ar Hap 2009-2010, ewch i <http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgid=477&pid=47582>

1.5 Ar 29 a 30 Mai 2012, cynhaliodd AGIC ymweliad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd ag Ysbyty Prifysgol Llandochau.

Ysbyty Athrofaol Llandochau

1.6 Ysbyty Cyffredinol Dosbarth sydd wedi ei leoli ym Mhenarth, bum milltir o ganol Caerdydd, yw Ysbyty Athrofaol Llandochau. Mae gan yr ysbyty 480 o welyau, ac mae'n darparu'r holl brif arbenigeddau.

1.7 Ymwelwyd â dwy ward yn rhan o'r arolygiad: Ward 6 y Gorllewin sy'n arbenigo mewn Clefydau Anadlol Meddygol a Ward 8 y Gorllewin sy'n arbenigo mewn Gofal yr Henoed.

2. Canfyddiadau

2.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau ein hymweliad.

Ward 6 y Gorllewin Ward Clefydau Anadlol Meddygol

2.2 Yn gyffredinol, roedd y ward wedi ei threfnu'n dda, gydag awyrgylch gofalgar a thîm cadarnhaol a brwdfrydig ar y ward.

Amgylchedd y Ward

2.3 Gwelwyd bod y ward yn lân iawn a'i bod yn daclus ar y cyfan. Dywedodd y cleifion y siaradwyd â hwy ar y ward eu bod o'r farn fod y ward yn lân iawn, ac nad oedd ganddynt unrhyw broblemau i roi gwybod amdanynt.

2.4 Roedd y ward yn cynnwys tair cilfach â phedwar gwely, tair ystafell ochr, a chilfach 16 gwely math Nightingale ar gyfer dynion. Nid oedd annibendod yn y gilfach i ddynion, ond nodwyd bod y cilfachau i fenywod yn fychan a bod annibendod yn y manau rhwng y gwelyau. Yn ogystal, roedd y coridor a oedd yn arwain at fynedfa'r ward yn gul ac offer meddygol wedi ei gadw ar ei hyd, gan wneud i'r man edrych yn flêr ac yn anniben.

2.5 Roedd y comedau a welwyd ar y ward yn lân iawn, ond roedd y man distreulio ar gyfer y ward yn fach iawn, a chomodau'n cael eu cadw'n amhriodol yn ystafelloedd cawod a thai bach y cleifion.

2.6 Darparwyd tai bach ar gyfer dynion yn unig a menywod yn unig ar y ward, ac roedd arwyddion i'r perwyl hwnnw ar gyfer y cleifion.

2.7 Roedd ystafell ddydd ar gael i'r cleifion ac ynnddi deledu, a gwelwyd cleifion yn defnyddio'r ystafell. Fodd bynnag, roedd yr ystafell hon yn cael ei defnyddio i gadw llawer iawn o offer meddygol a matresi nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Dyweddod y staff wrthym fod y rhaglen Trawsnewid Gofal³ yn y broses o gael ei gweithredu ar y ward, a bod yr eitemau diangen megis y matresi nad oeddent yn cael eu defnyddio a'r offer meddygol yn yr ystafell ddydd wedi eu nodi i gael eu symud oddi yno.

2.8 Roedd pegiau urddas ar gael ar y wardiau ac fe'u defnyddir i roi gwybod i eraill fod gofal a thriniaeth yn cael ei ddarparu y tu ôl i lenni caeedig. Er hynny, dim ond ar un achlysur y gwelwyd nhw'n cael eu defnyddio tra'r oeddem ar y ward.

Agwedd ac Ymddygiad y Staff, a'u Gallu i Ddarparu Gofal ag Urddas

2.9 Gwelwyd y staff yn ymadweithio'n dda gyda chleifion. Roedd y staff yn gwrtais, yn canolbwyntio ac yn barod i helpu bob amser, ac roedd hyn yn arwain at awyrgylch gofalgar iawn. Yn ogystal, roedd y cleifion y siaradwyd â hwy yn dweud eu bod yn fodlon iawn ar y staff.

2.10 Yn gyffredinol, roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i ddangos disgrisiwn wrth drafod gwybodaeth bersonol am y cleifion. Fodd bynnag, yn ystod rownd y ward, gwelwyd ymgynghorydd yn siarad â chleifion am eu cyflwr, ac roedd yn siarad yn uchel iawn a gellid ei glywed ar draws yr ystafell.

2.11 Roedd y lefelau staffio yn dda iawn ar ddiwrnod yr arolygiad, ond dywedodd y staff wrthym iddynt fynd trwy gyfnod anodd yn gynharach yn y flwyddyn pan oedd y lefelau staffio yn isel oherwydd salwch.

2.12 Gwelwyd nad oedd pob aelod o'r staff yn gwisgo bathodyn enw fel ffordd i ddangos pwy yr oeddent yn ystod ein hamser ar y ward.

Rheoli Cleifion Dryslyd Neu Sydd â Dementia

2.13 Gwelwyd y staff yn rhoi gofal mewn modd sensitif a chan gynnal urddas cleifion drslyd ar y ward. Gwelwyd hefyd gamau ymarferol yn cael eu cymryd,

³ Mae 'Trawsnewid Gofal' yn rhaglen wella sydd wedi ei seilio ar wardiau ar draws GIG Cymru sy'n grymuso timau ward i wella ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

megis arwyddion yn cael eu gosod uwchben gwely claf dryslyd yn nodi sut yr oedd yn hoffi cael ei de.

2.14 Roedd yr arwyddion ar gyfleusterau tai bach ac ystafell gawod y cleifion yn fychan a gellid eu gwneud yn fwy eglur er budd yr holl gleifion, yn enwedig ar gyfer y cleifion dryslyd neu a oedd â dementia.

2.15 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym yn y sesiwn adborth y byddai'r Cynllun Pili Pala⁴ yn cael ei weithredu ar y ward ar ôl i'r rhaglen Trawsnewid Gofal gael ei rhoi ar waith.

Cynllunio a Darparu Gofal

2.16 Roedd cynlluniau gofal ar gael ar gyfer yr holl gleifion, ac roedd y rhai a adolygwyd gennym yn briodol ar gyfer anghenion y cleifion. Roedd tystiolaeth ar gael hefyd yn y cofnodion nyrsio a'r cofnodion meddygol i ddangos bod asesiadau yn cael eu cynnal ar gyfer cleifion, eu bod yn gyfredol ac yn cyfrannu at gynlluniau gofal y cleifion. Fodd bynnag, roedd yr holl gynlluniau gofal yr edrychwyd arnynt yn rhai cyffredinol, ac er eu bod yn briodol ar gyfer cyflyrau'r cleifion, nid oedd yr un ohonynt wedi ei deilwra'n unigol i adlewyrchu anghenion penodol y cleifion.

Rheoli Cofnodion

2.17 Roedd cofnodion y cleifion yn hawdd eu dilyn, ac roeddent yn cael eu diweddarau yn syth ar ôl darparu gofal a thriniaeth.

Hylif a Maeth

2.18 Gwelwyd bod y staff yn treulio amser yn briodol i baratoi cleifion ar gyfer eu cinio trwy eu helpu i eistedd yn eu cadeiriau wrth ochr y gwely neu eu helpu i'w gosod eu hunain yn fwy cyfforddus yn eu gwelyau.

⁴ Mae'r Cynllun Pili Pala yn caniatáu i bobl y mae eu cof wedi ei effeithio'n barhaol gan dementia wneud hynny'n eglur i staff ysbyty, ac mae'n darparu strategaeth seml ac ymarferol i'r staff ar gyfer bodloni eu hanghenion.

2.19 Roedd y staff nos wedi paratoi rhestr yn nodi'r cleifion hynny yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta, a thrafodwyd y cleifion cyn yng nghyfarfod boreol lechyd a Diogelwch y ward. Rhannwyd y wybodaeth hon hefyd â'r staff arlwyo.

2.20 Yn ystod yr amser pryd bwyd, gwelwyd y nyrsys cofrestredig yn mynd ar rownd gyffuriau, a'r Cynorthwyr Gofal lechyd a'r Staff Arlwyo a oedd yn gweini prydau bwyd y cleifion, gyda dim cyfraniad bron gan y Nyrsys Cofrestredig.

2.21 Gwelwyd y Cynorthwyr Gofal lechyd yn rhoi cymorth prydlon i gleifion yr oedd angen help arnynt i fwyta eu prydau bwyd neu i yfed. Yn ogystal, roedd y siartiau bwyd yn gyfredol, ac roeddent yn cael eu cwblhau yn syth ar ôl y prydau bwyd.

2.22 Roedd dŵr yfed ar gael i'r cleifion, a gwelwyd y staff yn annog cleifion i yfed trwy gydol y dydd. Fodd bynnag, mynegodd nifer o gleifion eu bod yn dymuno cael mwy o ddiodydd poeth. Gwnaed cyfanswm o bum rownd o ddiodydd trwy gydol y dydd yn hytrach na safon Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan⁵ sy'n nodi y dylid cynnig saith neu wyth diod mewn unrhyw gyfnod o 24 awr. Roedd cleifion yn teimlo bod "o 9:00pm hyd 8:00am yn amser hir i fynd heb gael diod boeth".

Briwiau Pwyso

2.23 Roedd croesau diogelwch⁶ yn cael eu defnyddio, a bwndeli SKIN⁷ priodol ar gael, ar gyfer cleifion yr ystyriwyd eu bod mewn risg uwch, er mwyn gallu lleihau briwiau pwyso. Roedd y rhain i gyd wedi eu diweddarau, ac roeddent wedi eu cysylltu â nodiadau meddygol y cleifion.

2.24 Roedd yr holl gleifion yr aseswyd eu bod mewn perygl o ddatblygu briwiau pwyso yn cael matres briodol i geisio atal unrhyw friwiau.

⁵ Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai.

⁶ Mae croes ddiogelwch yn ddull a ddefnyddir ar gyfer codi ymwybyddiaeth mewn tîm ynglŷn â faint o wlsrau a geir mewn ardal gofal, ac fe'i defnyddir hefyd ar gyfer hybu arfer da.

⁷ Dull cyfannol, syml i sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn y gofal priodol ar gyfer atal briwiau pwyso.

Gofal a Hylendid Personol

2.25 Roedd yn ymddangos bod y cleifion ar y ward yn derbyn gofal da a bod eu hanghenion gofal a hylendid personol yn derbyn sylw. Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain, a oedd yn ymddangos yn lân.

2.26 Roedd dogfennau da ar gael yn rhoi manylion am y gofal personol a ddarperid i gleifion ar y ward, ac roeddent yn hawdd eu dilyn.

2.27 Roedd y cleifion yn cael y cyfle i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r tŷ bach, ond ni welwyd neb yn cynnig hancesi gwlyb i'r cleifion na'r cyfle i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

2.28 Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelwyd cleifion yn cael eu cynorthwyo i fynd a dod o'r tai bach gan y staff, ond roedd nifer o gleifion yn cael eu powlio ar gomodau. Dywedodd y staff wrthym y byddai'n well ganddynt ddefnyddio cadeiriau olwyn gan y byddai'n rhwyddach, yn fwy cyfforddus ac yn rhoi mwy o urddas i'r cleifion, ond bod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r comodau gan nad oedd cadeiriau olwyn i gleifion ar gael ar y ward.

Seinyddion

2.29 Roedd y seinyddion wrth ochr y gwelyau o fewn cyrraedd rhwydd i'r cleifion i gyd, ac yn ystod ein hamser ar y ward, gwelwyd y staff yn ateb y seinyddion mewn modd amserol. Yn ogystal, dywedodd y cleifion y siaradwyd â hwy fod y staff yn ateb y seinyddion yn brydlon.

Cyfathrebu

2.30 Dywedodd y cleifion a'r perthnasau y siaradwyd â hwy eu bod o'r farn fod y staff ar y ward yn gwrando arnynt a'u bod yn eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth. Yn ogystal, roedd cofnodion y cleifion yr edrychwyd arnynt yn dangos bod y staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'r perthnasau.

Rheoli Meddyginiaethau a Rheoli Poen

2.31 Ni thynnwyd sylw at unrhyw broblemau ynglŷn â rheoli poen gan y cleifion y siaradwyd â hwy ar y ward.

2.32 Gwelwyd rownd feddyginiaeth yn ystod ein hamser ar y ward. Roeddem yn falch o weld bod y staff yn gwisgo tabardau coch i roi gwybod i eraill eu bod ar eu rownd ac na ddylid tarfu arnynt. Fodd bynnag, roedd yn achos pryder gweld meddyginiaeth un claf yn cael ei adael ar y bwrdd wrth ochr y gwely. Rhoddwyd gwybod i nyrs am hyn, a sicrhodd fod y claf yn cymryd y feddyginiaeth.

Cynllunio ar Gyfer Rhyddhau Cleifion

2.33 Dywedwyd wrthym fod swyddogaeth cydlynedd sifftiau yn cael ei chyflawni gan y staff yn eu tro ar gylchdro chwe mis. Y cydlynedd yn unig sy'n ymdrin â rhyddhau cleifion, a dywedwyd wrthym fod hyn wedi gweithio'n dda o ran gwella'r broses gyffredinol o ryddhau cleifion o'r ward. Fodd bynnag, gan mai'r cydlynedd oedd yr unig unigolyn a oedd yn ymdrin â rhyddhau cleifion, roedd y system yn arafu pan nad oedd y cydlynedd sifftiau ar ddyletswydd. Yn ogystal, pan oedd y swyddogaeth yn cael ei throsglwyddo i'r aelod nesaf o'r staff ar y cylchdro, roedd arbenigedd yn cael ei golli.

2.34 Roedd y cleifion y siaradwyd â hwy a oedd am gael eu rhyddhau cyn bo hir, i gyd yn gwybod pryd ac i ble yr oeddent yn mynd. Fodd bynnag, dywedodd nifer o gleifion wrthym eu bod yn pryderu gan nad oeddent wedi cael digon o rybudd ynglŷn â'u trefniadau rhyddhau.

Gweithgareddau

2.35 Gall gweithgareddau hamdden a gynhelir ar wardiau ysbyty (gan gynnwys gemau bwrdd, cardiau a bingo) roi cyfle i gleifion wella ansawdd eu bywyd trwy deimlo bod ganddynt fwy o reolaeth a chefnogaeth gymdeithasol, a thrwy iddynt gymdeithasu mwy a chyflawni amcanion sy'n canolbwyntio ar gwblhau gorchwylion. Gall hyn hefyd helpu pobl sy'n agored i niwed ddatblygu neu ailsefydlu sgiliau cymdeithasol mewn amgylchedd a reolir. Mae gwaith ymchwil⁸ wedi dangos bod gweithgareddau a gynhelir ar wardiau ysbyty yn cael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar gleifion mewnol, gan gynnwys:

- Peri newidiadau ffisiolegol a seicolegol cadarnhaol mewn canlyniadau clinigol.
- Lleihau'r defnydd o gyffuriau.
- Cwtogi hyd arhosiad yn yr ysbyty.
- Hybu perthynas well rhwng meddygon a chleifion.
- Gwella iechyd meddwl.

2.36 Roedd ystafell ddydd ar gael ac ynndi deledu a rhai llyfrau. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd eisoes, roedd llawer iawn o eitemau diangen yn yr ystafell.

2.37 Nid oedd unrhyw ysgogiad arall na gweithgareddau ar gael i'r cleifion ar y ward.

Ward 8 y Dwyrain Gofal yr Henoed

2.38 Yn gyffredinol, roedd y ward yn lân ac yn glir, ac roedd yr holl staff yn gweithio mewn modd proffesiynol a sensitif. Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da, ac roedd sawl arfer nodedig wedi ei sefydlu.

⁸ Cymdeithas Feddygol Prydain, 'The psychological and social needs of patients,' mis Ionawr 2011

Amgylchedd y Ward

2.39 Roedd y ward yn eithriadol o lân a thaclus gan fod ystafelloedd storio yn cael eu defnyddio'n briodol a'u trefnu'n dda. Roedd y cleifion a'r perthnasau y siaradwyd â hwy yn fodlon iawn ar amgylchedd y ward.

2.40 Mae'r ward wedi ei rhannu'n ddwy ystafell chwe gwely i ddynion a dwy ystafell chwe gwely i fenywod, a man canolog rhyngddynt sy'n cynnwys gweithfan y nyrsys ac ystafelloedd unigol. Mae dwy ystafell ddydd hefyd ar gael ar y ward ar gyfer cleifion, a'r ddwy ohonynt yn cynnwys teledu a llyfrau. Mae'r ystafell ddydd fwyaf ym mhen y menywod o'r ward hefyd yn cynnwys byrddau bwyta, a dywedwyd wrthym bod y cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio'r byrddau bwyta i gael eu cinio yn ystod amser y clwb cinio ar y ward.

2.41 Darperir tai bach ac ystafelloedd ymolchi ar gyfer dynion yn unig a menywod yn unig, ac roedd arwyddion eglur arnynt i ddangos hynny.

2.42 Roedd y trolïau gwisgo a'r comodau yn lân, ac mae'r staff yn gosod labeli gwyrdd ar yr offer i ddangos i eraill eu bod wedi eu glanhau.

2.43 Roedd pegiau urddas ar gael ar y ward i roi gwybod i eraill bod gofal a thriniaeth yn cael ei ddarparu y tu ôl i lenni caeedig, a gwelwyd tystiolaeth fod y staff yn eu defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd aelodau eraill o'r staff ar y ward bob amser yn defnyddio'r pegiau urddas.

Agwedd, Ymddygiad a Gallu'r Staff i Ddarparu Gofal ag Urddas

2.44 Gwelwyd y staff yn ymadweithio'n dda iawn gyda'r cleifion mewn ffordd garedig a sensitif, ac roedd y cleifion y siaradwyd â hwy yn canmol agwedd ac ymddygiad y staff tuag atynt yn fawr.

2.45 Gwelwyd y staff yn darparu gofal a thriniaeth mewn modd sensitif, a gwelwyd hefyd rownd ward a gynhaliwyd mewn modd ystyriol gan y staff dan sylw.

2.46 Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelwyd nad oedd pob aelod o'r staff yn gwisgo bathodyn enw er mwyn i eraill wybod pwy oeddent.

Rheoli Cleifion Dryslyd Neu Sydd â Dementia

2.47 Tra oeddem ar y ward, gwelwyd agwedd ragorol at y cleifion dryslyd neu a oedd â dementia, ac roedd arwyddion darluniadol ar y drysau hefyd i helpu cleifion o'r fath.

2.48 Mae'r rhaglen Trawsnewid Gofal wedi ei sefydlu'n dda ar y ward, a hefyd, roedd y cynllun pili pala wedi ei gyflwyno sy'n golygu defnyddio symbol pili pala i nodi claf sydd â dementia. Gwelwyd hyn ar fwrdd gwyn y ward. Gwelwyd tystiolaeth hefyd o'r defnydd da o gymhorthion cof ar gyfer y cleifion a oedd â dementia. Un enghraifft o hyn oedd lle yr oedd y staff wedi ysgrifennu gwybodaeth ar ddarn o bapur ar gyfer claf a oedd â dementia yn rhoi gwybod iddo ble yr oedd, a gwybodaeth am weddill y dydd, gan gynnwys yr amser y byddai ei wraig yn dod i ymweld â'r ward i'w weld.

2.49 Roedd nifer o gleifion â dementia ar y ward, a oedd, yn rhan o'u cyflwr, yn crwydro o gwmpas. Roedd nifer o'r cleifion eraill y siaradwyd â hwy a oedd yn yr un gilfach yn dweud eu bod yn teimlo'n ofnus yn ystod y nos oherwydd ymddygiad y cleifion hyn, gan eu bod yn ceisio mynd i'w gwelyau hwy weithiau. Cydnabu staff y ward y siaradwyd â hwy ei bod wedi mynd yn fwy a mwy anodd monitro cleifion sy'n crwydro o gwmpas yn ystod y nos. O ganlyniad, rydym yn argymhell y dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu lleoliad y cleifion sydd â dementia er mwyn sicrhau ei bod yn haws i'r staff sydd ar ddyletswydd eu harsylwi, a hefyd y dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a defnyddio polisi ar sut i reoli cleifion sydd â dementia ac sy'n crwydro o gwmpas, gan ystyried materion hawliau dynol, a hyfforddi staff ar sut i roi'r polisi hwnnw ar waith.

Cynllunio a Darparu Gofal

2.50 Roedd asesiadau'n cael eu cynnal ar gyfer cleifion, ac roeddent yn cael eu cofnodi'n dda. Yn ogystal, roedd gan yr holl gleifion a oedd wedi eu hasesu gynllun gofal priodol, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu teilwra'n arbennig ar gyfer y cleifion unigol.

2.51 Tra oeddem ar y ward, daethom yn ymwybodol o glaf meddygol aciwt a oedd wedi ei derbyn i'r ward y noson gynt gyda haint ar y frest. Gwelwyd ar ei nodiadau bod ei chyflwr wedi gwaethygu, a thrafodwyd hyn gyda'r nyrs a oedd yn gofalu amdani. Roedd yn ymwybodol bod cyflwr y claf wedi gwaethygu, ond nid oedd yn sylweddoli difrifoldeb y sefyllfa, ac oherwydd hynny nid oedd wedi atgyfeirio'r mater i neb. Cymerwyd camau di-oed gennym gan atgyfeirio'r mater i'r brif nyrs a gymerodd y camau priodol. Roedd y digwyddiad hwn yn amlygu'r ffaith nad oedd pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio ar y ward yn gyfarwydd â'r system rhybudd cynnar a ddefnyddir ar gyfer nodi cleifion sy'n gwaethygu, ac nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant.

2.52 Ers yr arolygiad, rydym wedi derbyn sicrhad gan y Bwrdd Iechyd ei fod wedi ymateb mewn ffordd gefnogol fel bod y nyrs staff unigol dan sylw a'r tîm ehangach yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, er mwyn iddynt allu adnabod ac ymateb yn briodol i glaf sy'n gwaethygu.

Rheoli Cofnodion

2.53 Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau yn syth ar ôl darparu gofal a thriniaeth, ac roedd y cofnodion hefyd yn hawdd eu dilyn.

2.54 Adolygwyd nifer o gofnodion gennym lle y nodwyd na ddylid ceisio dadebru'r claf (DNAR). Roedd holl gofnodion y cleifion a adolygwyd yn cynnwys y ffurflen briodol, a honno wedi ei diweddarau a'i chwblhau yn llawn.

Hylif a Maeth

2.55 Roedd dŵr yfed ar gael i'r cleifion, ond nid oedd y diodydd bob amser o fewn cyrraedd rhwydd iddynt, a hefyd, ni welwyd pob aelod o'r staff yn annog y cleifion i yfed.

2.56 Gwelwyd tystiolaeth bod asesiadau maeth ar gael ar gyfer y cleifion yr oedd arnynt eu hangen ar y ward.

2.57 Paratôdd y staff yn ddigonol cyn yr amser pryd bwyd a arsylwyd gennym. Roedd pobl abl hefyd yn cael eu cynorthwyo gan y staff i fynd at y byrddau bwyd yn yr ystafell ddydd ac yn ôl yn ystod dyddiau'r clwb cinio, a oedd yn digwydd unwaith yr wythnos, gan amlaf.

2.58 Roedd y system hambyrddau coch wedi ei sefydlu ar y ward, ac roedd cleifion yr oedd arnynt angen cymorth yn cael eu helpu gan y staff. Ar ddiwrnod ein harolygiad, roedd y cleifion yn cael eu cynorthwyo'n dda i fwyta, ond roedd yn amlwg yn her i geisio cynorthwyo cymaint o gleifion a oedd ag angen help ar y ward. Dywedodd Prif Nyrs y Ward wrthym ei bod yn bwriadu archwilio'r defnydd o wirfoddolwyr i helpu cleifion yn ystod amser prydau bwyd yn rhan o fenter gan y Bwrdd Iechyd.

2.59 Ar ôl yr amser pryd bwyd, cwblhawyd siartiau bwyd a hylifau yn briodol gan y staff.

Briwiau Pwyso

2.60 Roedd asesiadau Waterlow⁹ yn cael eu cynnal ar gyfer y cleifion yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o ddatblygu briwiau pwyso, a hefyd, roedd bwndeli SKIN ar gael ar gyfer y cleifion hynny a oedd mewn perygl. Roedd y cleifion yr aseswyd eu bod mewn perygl o gael briwiau pwyso yn cael y fatres briodol ar gyfer lleihau'r risg o niwed i'r croen.

⁹ Offeryn polisi asesu risg/atal briwiau pwyso yw 'Waterlow.'

Gofal a Hylendid Personol

2.61 Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos y darperir gofal personol i gleifion ar y ward. Yn ogystal, dywedodd y cleifion y siaradwyd â hwy eu bod yn cael ymolchi a glanhau eu dannedd mor rheolaidd ag y mynnont.

2.62 Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn cael y cyfle i olchi eu dwylo cyn cael eu prydu bwyd ar y ward. Gwelwyd cleifion hefyd yn cael golchi eu dwylo gan rywun arall.

2.63 Yn gyffredinol, gwelwyd bod y cleifion ar y ward i'w gweld yn derbyn gofal da, a bod eu hanghenion gofal a hylendid personol yn cael eu bodloni. Yn ogystal, roedd y cleifion yn gwisgo eu dillad eu hunain, a oedd yn ymddangos yn lân. Fodd bynnag, roedd gan un claf ar y ward ysgarthion sych dan ei hewinedd; tynnwyd sylw aelod o staff yn syth at hyn, a glanhwyd ewinedd y claf.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

2.64 Ni welwyd y staff yn gofyn i'r cleifion benywaidd yn ystod y bore a oeddent angen defnyddio'r tŷ bach, ond gwelwyd hynny'n digwydd ar ôl amser cinio. Roedd yn achos pryder i ni fod padiau'n cael eu defnyddio yn lle cynorthwyo cleifion i fynd i'r tŷ bach, ond roedd yn ymddangos mai ym mhen y menywod o'r ward yr oedd hyn yn digwydd, ac y gallai fod yn gysylltiedig â'r tîm a oedd yn gofalu am y cleifion, yn hytrach na bod yn rhan o ddiwylliant y ward. Codwyd y mater hwn hefyd ag aelod o staff, a gytunodd y gallai hyn fod yn digwydd.

Seinyddion

2.65 Nid oedd seinyddion yr holl gleifion o fewn cyrraedd iddynt, ond roeddent yn gallu gweld y staff nyrsio yn gyffredinol.

2.66 Dywedodd y cleifion y siaradwyd â hwy nad oeddent yn defnyddio'r seinyddion yn aml iawn, ond bod y staff yn ymateb yn brydlon pan oeddent yn eu defnyddio.

Cyfathrebu

2.67 Dywedodd y cleifion a pherthnasau fod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â gofal a thriniaeth, ac roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd hefyd yn dangos bod y staff yn cyfathrebu â'r cleifion a pherthnasau. Dywedodd y staff ar y ward wrthym hefyd fod clinig cyfathrebu yn cael ei dreialu ar y ward er mwyn ei gwneud yn haws cyfathrebu â'r perthnasau, a bod taflen wedi ei llunio i godi ymwybyddiaeth o hynny.

Rheoli Meddyginiaethau a Rheoli Poen

2.68 Ni chododd y cleifion y siaradwyd â hwy unrhyw broblemau ynglŷn â rheoli poen. Fel gyda Ward 6 y Gorllewin, roeddem yn falch o weld bod y staff a oedd ar y rownd feddyginiaeth yn gwisgo tabardau coch i roi gwybod i eraill eu bod ar eu rownd, ond roedd yn achos pryder i ni ein bod wedi gweld meddyginiaeth yn cael ei gadael ar fwrdd wrth ochr gwely un claf. Roedd hyn yn bryder arbennig oherwydd bod nifer o gleifion dryslyd ar y ward. Codwyd y mater hwn â nyrs ar unwaith, a sicrhodd fod y claf yn cymryd y feddyginiaeth.

Cynllunio ar Gyfer Rhyddhau Cleifion

2.69 Roedd gan y ward nyrs ar gyfer cydlynu'r broses o ryddhau cleifion ac mae'n darparu cymorth i'r ward hon ynghyd â thair ward arall ym maes rhyddhau cleifion. Dywedwyd wrthym fod tri chlaf ar y ward ar y pryd yr oedd y broses o'u rhyddhau wedi ei gohirio.

Gweithgareddau

2.70 Roedd dwy ystafell ddydd ar gael ar y ward a oedd yn cynnwys setiau teledu, llyfrau, gemau a system stereo.

2.71 Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio sicrhau bod y cleifion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau mawr megis gwyllo gemau rygbi a'r jiwbilî, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn ystod ein hymweliad. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y ward

nyrs cydlynu therapi a oedd yn trefnu a chynnal gweithgareddau gyda'r cleifion ar un diwrnod o'r wythnos. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod cyfraniad y nyrs gydlynu wedi ei leihau yn ddiweddar.

3. Argymhellion

3.1 O ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol.

Amgylchedd y Ward

3.2 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer storio ar y ward er mwyn sicrhau y cedwir eiddo cleifion a chyflenwadau'r ward yn briodol.

3.3 Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y sefydlir mesurau ar draws y Bwrdd Iechyd ar gyfer rhoi gwybod i eraill fod gofal a thriniaeth yn cael ei ddarparu y tu ôl i lenni caeedig, a hefyd fod y staff yn cael gwybod bod yn rhaid iddynt weithredu yn unol â'r arwyddion hynny.

Agwedd, Ymddygiad a Gallu'r Staff i Ddarparu Gofal ag Urddas

3.4 Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff sy'n mynd ar rowndiau meddygol yn gwneud hynny mewn modd sensitif er mwyn gallu cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

3.5 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl aelodau staff ar y wardiau yn gwisgo bathodynau enw tra eu bod ar ddyletswydd.

Rheoli Cleifion Dryslyd Neu Sydd â Dementia

3.6 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod arwyddion mawr ar gael ar gyfleusterau'r cleifion er mwyn helpu'r cleifion i allu dod o hyd iddynt.

3.7 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a defnyddio polisi ar sut i reoli cleifion â dementia sy'n crwydro o gwmpas, gan ystyried materion hawliau dynol, a hyfforddi'r staff ar sut i roi'r polisi hwn ar waith.

3.8 Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu lleoliad y cleifion sydd â dementia ar wardiau, er mwyn sicrhau ei bod yn haws i'r staff sydd ar ddyletswydd eu harsylwi.

Cynllunio a Darparu Gofal

3.9 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion mewnol gynlluniau gofal sy'n cael eu haddasu ar gyfer eu hanghenion penodol, a bod y cynlluniau gofal hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

3.10 Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd adolygu'r broses o reoli a monitro cleifion y mae eu cyflwr yn gwaethygu, a sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol i allu adnabod arwyddion bod cleifion yn gwaethygu a'u bod yn deall ac yn dilyn proses briodol ar gyfer atgyfeirio materion i uwch aelod o staff.

Hylif a Maeth

3.11 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod nyrs gofrestredig ar bob sifft yn goruchwyllo'r amser prydau bwyd a/neu yn atebol am y ffordd y mae'r amser prydau bwyd yn cael eu cynnal.

3.12 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod diodydd poeth ar gael yn rhwyddach i'r cleifion, yn unol â Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai.

3.13 Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod diodydd ar gael o fewn cyrraedd i'r cleifion i gyd.

3.14 Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol y dylent annog y cleifion yn rheolaidd i yfed diodydd.

3.15 Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried defnyddio gwirfoddolwyr i gynorthwyo i helpu cleifion i fwyta eu bwyd yn ystod amser cinio ar Ward 8 y Dwyrain.

Gofal a Hylendid Personol

3.16 Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael y cyfle i olchi eu dwylo cyn amser prydau bwyd.

3.17 Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o bob agwedd ar ddarpariaeth gofal personol ar gyfer y cleifion.

Anghenion o Ran Mynd i'r Tŷ Bach

3.18 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cadeiriau olwyn ar gael ar wardiau i helpu cleifion i'r fynd yn ôl ac ymlaen i'r tai bach.

3.19 Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau yr anogir ac y cynorthwyir yr holl gleifion i ddefnyddio eu dull dewisol o fynd i'r tŷ bach.

Seinyddion

3.20 Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod seinydd ar gael o fewn cyrraedd i'r cleifion i gyd.

Rheoli Meddyginiaeth a Rheoli Poen

3.21 Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod dulliau ar gael ar gyfer sicrhau bod y cleifion yn cymryd eu meddyginiaeth wrth iddi gael ei dosbarthu, ac o ganlyniad, nad yw'r feddyginiaeth yn cael ei gadael ar y cypyrddau wrth ochr gwely'r cleifion.

Cynllunio ar Gyfer Rhyddhau Cleifion

3.22 Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod systemau wedi eu sefydlu i atal prosesau gwael o ryddhau cleifion unigol.

Gweithgareddau

3.23 Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried ffyrdd o ddarparu gweithgareddau ac ysgogiad ar gyfer y cleifion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysbyty.

4. Casgliad

4.1 Yn gyffredinol, canfuwyd bod y staff yn ymadweithio'n dda gyda'r cleifion a'u bod yn darparu gofal mewn modd caredig a sensitif.

4.2 Roeddem yn falch o weld bod y Cynllun Pili Pala wedi ei gyflwyno ar Ward 8 y Dwyrain. Dywedodd staff y Bwrdd Iechyd wrthym y bydd y Cynllun Pili Pala yn dechrau cael ei roi ar waith ar Ward 6 y Gorllewin ar ôl gweithredu'r rhaglen Trawsnewid Gofal ar y ward. Yn ystod ein hamser ar y ddwy ward, gwelwyd y staff yn darparu gofal mewn modd sensitif, ac roeddent yn arddangos agwedd ragorol at gleifion dryslyd a chleifion a oedd â dementia. Fodd bynnag, ar Ward 8 y Dwyrain, daethom yn ymwybodol o broblemau ynglŷn ag arsylwi a monitro cleifion â dementia a oedd yn crwydro o gwmpas yn ystod y nos. Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd eu hystyried ynglŷn â'r mater hwn.

4.3 Yn gyffredinol, canfuwyd bod gofal yn cael ei ddarparu'n dda i'r cleifion ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy, ond codwyd nifer o broblemau yn ystod ein hymweliad. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg system i atgyfeirio materion i uwch aelodau'r staff ar ôl i glaf waethygu ar Ward 8 y Dwyrain; a hefyd, ar Ward 6 y Gorllewin, nid oedd holl gynlluniau gofal y cleifion ar y ward wedi eu haddasu ar gyfer eu hanghenion penodol, gan arwain at anghysondebau o ran cynllunio gofal ar y ward.

5. Y Camau Nesaf 5

5.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd lunio cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r prif broblemau a amlygwyd, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'n glir pa bryd a sut y rhoddwyd sylw i'r problemau a nodwyd gennym ar y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Dylai hefyd gynnwys amserlenni ar gyfer sicrhau nad yw'r problemau yn cael eu hailadrodd yn unlle arall ar draws y Bwrdd Iechyd.

5.2 Yna, cyhoeddir y cynllun gweithredu hwn ar wefan AGIC a'i fonitro yn rhan o broses fonitro reolaidd AGIC.

5.3 Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn enwedig y staff ar Wardiau 8 y Dwyrain a 6 y Gorllewin a oedd yn barod iawn i helpu trwy gydol yr arolygiad.

Y Cefndir a'r Fethodoleg ar Gyfer yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol

Yn 2009-2010, cynhaliodd AGIC nifer o 'Archwiliadau Dirybudd ar Hap ynglŷn ag Urddas a Pharch' mewn wardiau ac adrannau a oedd yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl.

Ar ôl pob un o'r archwiliadau ar hap hyn, gwnaethom ysgrifennu at Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd perthnasol yn esbonio ein canfyddiadau ac yn dwyn sylw at feysydd i'w gwella. Yna, roedd y Bwrdd Iechyd yn darparu 'cynllun gweithredu' i AGIC yn esbonio sut y byddent yn datblygu meysydd yr oeddem wedi nodi bod angen eu gwella.

I gael mwy o wybodaeth am archwiliadau dirybudd ar hap AGIC ynglŷn ag urddas a pharch yn 2009-2010, defnyddiwch y ddolen ganlynol:

<http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgid=477&pid=47582>

Yn 2011, datblygodd AGIC raglen newydd o archwiliadau ar hap gan ganolbwyntio ar y gofal hanfodol, y diogelwch, yr urddas a'r parch a dderbynnir gan gleifion yn yr ysbyty.

Adolygwyd nifer o adroddiadau allanol sydd wedi eu cyhoeddi gan sefydliadau megis Cymdeithas y Cleifion, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â gwybodaeth oddi wrth y cyhoedd ac o arolygiadau blaenorol AGIC. Ar sail y wybodaeth hon, rydym wedi datblygu methodoleg arolygu sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Amgylchedd y claf.
- Agwedd/ ymddygiad/ gallu staff o ran darparu gofal ag urddas.
- Cynllunio a darparu gofal.

- Briwiau pwysu.
- Hylif a maeth.
- Gofal personol a hylendid.
- Anghenion o ran mynd i'r tŷ bach.
- Seinyddion.
- Cyfathrebu.
- Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen.
- Rheoli cofnodion.
- Rheoli cleifion sy'n ddryslyd.
- Gweithgareddau a symbyliad.
- Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae'r arolygiadau hyn wedi eu cynllunio i adolygu'r gofal a'r driniaeth a dderbynnir gan bob claf yn yr ysbyty, yn enwedig cleifion hŷn y mae ymchwil wedi profi y gallant fod yn arbennig o agored i niwed tra eu bod yn aros yn yr ysbyty.

Yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol

Dechreuwyd cynnal rhaglen 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' AGIC ym mis Tachwedd 2011 pryd y cynhaliwyd arolygiad peilot yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.

Mae'r tîm arolygu yn cynnwys un o arolygwyr AGIC, dwy nyrs brofiadol sy'n ymarfer ac adolygwr 'lleyg'.

Mae'r tîm adolygu yn defnyddio nifer o ddulliau arolygu i gynorthwyo i gasglu gwybodaeth am ward mewn ysbyty. Yn ystod yr ymweliadau, bydd y tîm yn arsylwi, yn siarad â chleifion, gofalwyr a pherthnasau ac yn edrych ar gofnodion iechyd. Mae'r dulliau arolygu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol i'w gweld ar ein gwefan:

<http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgid=477&pid=57445>

Ar ôl i ysbyty gael ei arolygu, caiff adroddiad ei lunio a'i gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd, ac yna, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu cynllun gweithredu i AGIC i fynd i'r afael â'r prif faterion a amlygwyd.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Wneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalydd, perthynas neu weithiwr cyflogedig.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Prif swyddogaeth AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod y gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da.

Adolygir gwasanaethau yn unol ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal ymchwiliadau ac adolygiadau arbennig pan ymddengys bod methiannau systematig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Rydym hefyd yn diogelu buddiannau pobl y cyfyngir ar eu hawliau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn ogystal, AGIC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd.

Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007.
- Goruchwyliaeth Statudol Bydwagedd fel y'i nodir yn Erthyglau 42 a 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

Mae AGIC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill wrth gynnal adolygiadau traws-sector ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg a chyfiawnder troseddol, ac wrth ddatblygu dulliau mwy cymesur a chydgysylltiol o adolygu a rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn un o 18 o sefydliadau'r DU a ddynodwyd, ar y cyd, gan Lywodraeth y DU yn 'Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol' dan y Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn Erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall, er mwyn archwilio'r modd y caiff pobl sydd wedi colli eu rhyddid eu trin, a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Themâu Urddas a Gofal Hanfodol, Hawliau Dynol a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Mae'r ddogfen hon yn dangos sut y mae'r themâu a adolygir yn ystod arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol yn cyd-fynd â 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Thema Urddas a Gofal Hanfodol Amgylchedd y Ward

Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).

Agwedd, Ymddygiad a Gallu'r Staff i Ddarparu Gofal ag Urddas

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).

Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru **12. Yr Amgylchedd**

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau er mwyn darparu amgylcheddau sydd:

- d) yn ddiogel a sicr;
- e) yn diogelu preifatrwydd.

2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:

- a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.

10. Urddas a Pharch

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion a dewisiadau corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion, ac yn sicrhau bod eu hawl i urddas a pharch yn cael ei diogelu a'i bodloni.

26. Hyfforddi'r Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol

Mae cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod eu gweithlu yn cael cymorth priodol i'w galluogi:

- a) i gynnal a datblygu cymwyseddau er mwyn iddynt gyrraedd eu holl botensial;
- b) i gymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol;
- c) i gael arfarniad personol blynyddol a chynllun datblygu personol i'w galluogi i ddatblygu eu rôl;
- d) i ddangos eu bod yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus; ac
- e) i gael cyfleoedd i ddatblygu eu harferion cydweithredol a'u sgiliau gweithio mewn tîm.

Rheoli Cleifion Dryslud neu Sydd â Dementia

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).

Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).

2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:

- a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.

8. Cynllunio a Darparu Gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau.

Cynllunio a Darparu Gofal

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5).

Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).

Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10).

7. Gofal sy'n Ddiogel ac yn Glinigol Effeithiol

Bydd cyrff a gwasanaethau yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn cael triniaeth a gofal diogel ac effeithiol:

a) sy'n seiliedig ar arferion gorau a chanllawiau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys y rhai a nodir yn y Fframweithiau Gwasanaethau Cenedlaethol, ac yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE), yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA), a chyrff proffesiynol;

b) sy'n cydymffurfio o'r cychwyn â chyfarwyddebau diogelwch a chlinigol; ac

c) a amlygir gan weithdrefnau ar gyfer cofnodi ac archwilio cydymffurfiaeth a diffyg cydymffurfiaeth ag unrhyw un o'r uchod.

8. Cynllunio a Darparu Gofal

Mae cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

- a) drwy sicrhau bod pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeirio, asesu, gwneud diagnosis, trin, trosglwyddo gofal, rhyddhau a gofal diwedd oes, yn cael ei darparu'n brydlon ac yn gyson ag amserlenni a llwybrau cenedlaethol a'r arferion gorau;
- b) drwy helpu i ddatblygu gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain a thrwy hybu adsefydlu ac ail-alluogi; a
- c) thrwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a chyrff eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.

Cyfathrebu

Yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10).

Yr hawl i beidio â chael eich trin yn wahanol i eraill (Erthygl 14).

Yr hawl i beidio â chael eich arteithio na'ch trin mewn modd annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3).

Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8).

2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb ac yn sicrhau eu bod yn adnabod ac yn mynd i'r afael:

- a) ag anghenion unigolion, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac yn cynnal eu hawliau dynol.

9. Gwybodaeth a Chaniatâd Cleifion

Bydd cyrff a gwasanaethau yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr:

- a) drwy roi gwybodaeth hygyrch iddynt yn brydlon am eu cyflwr, eu gofal, eu meddyginiaeth, eu triniaeth a'u trefniadau cymorth;
- b) drwy ddarparu cyfleoedd i drafod a chytuno ar opsiynau;
- c) drwy drin eu gwybodaeth yn gyfrinachol;
- d) drwy sicrhau eu bod yn cael digon o wybodaeth cyn rhoi caniatâd, yn unol â'r arferion gorau; a
- e) drwy eu hasesu a'u gwarchod yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 pan fydd yn briodol.

18. Cyfathrebu Effeithiol

Mae cyrff a gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth effeithiol, hygyrch, priodol a phrydlon:

- b) â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff gan ddefnyddio ystod o gyfryngau a fformatiau priodol;
- c) ynghylch cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr;
- e) gan ymateb i anghenion ieithyddol ac anghenion cyfathrebu pawb.